



## RHEOLI ARFAU NODIADAU I ATHRAWON

### PAM MAE ANGEN Y CYTUNDEB MASNACH ARFAU?

Mae'r fasnach fyd-eang mewn arfau a ffrwydrion rhyfel confensiynol yn cael ei rheoli'n wael ac yn cynyddu gwrthdaro, tloedi a chamdriniaethau hawliau dynol. Er enghraifft, mae'r llywodraeth wedi rhoi trwyddedau ar gyfer allforion arfau a diogelwch i Algeria, Colombia, India, Indonesia, Kenya, Pakistan, Saudi Arabia, Sri Lanka, Syria, Twrci, Zambia a Zimbabwe – maent oll yn wledydd lle mae gan Amnest Rhyngwladol bryderon hawliau dynol difrifol.

Caiff y problemau eu gwaethygu gan globaleiddio cynyddol y fasnach arfau, er enghraifft rhannau'n cael eu cyflenwi o ledled y byd, a'r arfau'n cael eu cynhyrchu a'u rhoi at ei gilydd mewn gwahanol wledydd, lle weithiau mae'r rheolau'n llac.

Mae rheoleiddio domestig ar y fasnach arfau wedi methu addasu i'r newidiadau hyn.

Er bod rheolau cenedlaethol a rhanbarthol yn bwysig, nid yw'r rhain yn ddigonol i atal trosglwyddo arfau a ffrwydrion rhyfel yn anghyfrifol rhwng gwledydd (gweler [www.controlarms.org](http://www.controlarms.org)).

### BETH AM Y DU?

Y DU yw un o brif allforwyr arfau'r byd, felly mae ganddi gyfrifoldeb i sicrhau nad yw arfau'r DU yn cyfrannu at droseddau yn erbyn hawliau dynol tramor. Mae'r llywodraeth wedi addo rhoi hawliau dynol wrth ganol polisi tramor, ond mae llawer o gyfrinachedd ym masnach arfau a diogelwch y DU o hyd, ac nid yw'n cael ei rheoleiddio'n briodol.

### CYFLWR PRESENNOL Y CYTUNDEB MASNACH ARFAU

Yn 2006, pleidleisiodd 153 o lywodraethau yn llethol yn y Cenhedloedd Unedig o blaid datblygu Cytundeb Masnach Arfau i reoli'r fasnach farwol hon. Yn 2009 gwnaethant addo i gwblhau trafodaethau ynglŷn â'r Cytundeb erbyn 2012. Mae'r trafodaethau hyn yn mynd yn eu blaen o hyd.

#### Dylai'r Cytundeb:

- ymwneud â phob arfogaeth, gan gynnwys ffrwydrion rhyfel ac arfau bach
- rheoleiddio masnach sy'n cael ei chynnal yn anuniongyrchol trwy ganolwyr yn ogystal â bargeinio uniongyrchol rhwng gwladwriaethau
- darparu gwarantau na fydd unrhyw lywodraeth yn caniatáu gwerthu arfau os bydd amheuaeth y gallent gynyddu camdriniaethau hawliau dynol.

## SUT OLWG DDYLAI FOD AR Y CYTUNDEB MASNACH ARFAU?

### MAE'N RHAID I'R CYTUNDEB WNEUD LLYWODRAETHAU'N ATEBOL

Mae'n rhaid ei seilio ar rwymedigaethau cyfreithiol cyfredol y gwladwriaethau i gyfreithiau dyngarol rhyngwladol a Siarter y Cenhedloedd Unedig.

- **Hawliau dynol a chyfreithiau dyngarol rhyngwladol**

Mae trais arfog yn amharu ar hawliau dynol sylfaenol dinasyddion i ddiogelwch, addysg a gofal meddygol, ymhlith eraill. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau sicrhau na chaniateir unrhyw drosglwyddo pan fydd risg sylweddol y caiff yr arfau eu defnyddio i gyflawni troseddau difrifol yn erbyn cyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol a chyfreithiau dyngarol rhyngwladol.

- **Siarter y Cenhedloedd Unedig**

Mae trosglwyddo arfau'n anghyfreithlon yn drosedd yn erbyn rhwymedigaethau Siarter y Cenhedloedd Unedig i gynnal a chryfhau heddwch a diogelwch rhyngwladol, ac i ennyn cydweithrediad rhyngwladol o ran datrys problemau. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau sicrhau na chaiff unrhyw drosglwyddo ei ganiatáu pan fydd risg glir y caiff yr arfau eu defnyddio i droseddu yn erbyn Siarter y Deyrnas Unedig.

### MAE'N RHAID I'R CYTUNDEB FOD YN HOLLGYNHWYSOL

Mae'n rhaid iddo gynnwys yr holl arfau, pob trosglwyddiad, a phob trafodyn.

- **Yr holl arfau**

Ni achosir trais arfog gan arfau yn nwylo grwpiau anghyfreithlon yn unig. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau gynnwys yr holl arfau milwrol, diogelwch a'r heddlu, offer a ffrwydron rhyfel perthynol, a hyfforddiant.

- **Pob trosglwyddiad a thrafodyn**

Nid yw arfau'n dod i mewn i ffiniau drwy werthiant uniongyrchol yn unig. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau reoli mewnfario, allfario ac ailallfario arfau, yn ogystal â throsglwyddo dros dro ac ar longau, benthyciadau, rhoddion a chymorth. Hefyd mae'n rhaid iddo reoli'r rhai sy'n darparu hyfforddiant, trafndiaeth, storio a chyllid.

### MAE'N RHAID I'R CYTUNDEB FOD YN YMARFEROL AC YN GALLU CAEL EI ORFODI

Mae'n rhaid iddo ddarparu canllawiau ar gyfer ei weithredu'n llawn ac yn glir.

- **Tryloywder a chydweithredu**

Ni ellir gwneud na gweithredu rheoliadau arfau yn gyfrinachol a chudd. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau fod yn dryloyw ac mae'n rhaid iddo gynnwys cynllun cynhwysfawr ar gyfer cydweithredu ac adrodd yn rhyngwladol.

- **Cydymffurfio ac atebolrwydd**

Mae'n rhaid bod cytundebau arfau yn gallu cael eu gorfodi. Mae'n rhaid i Gytundeb Masnach Arfau fod â mecanwaith ar gyfer monitro cydymffurfio, ac mae'n rhaid iddo gynnwys darpariaethau ar gyfer datrys anghydfodau a sancsiynau.

I ddysgu rhagor am y Cytundeb Masnach Arfau ewch i

[www.amnesty.org.uk/content.asp?CategoryID=10079](http://www.amnesty.org.uk/content.asp?CategoryID=10079)

a [www.controlarms.org](http://www.controlarms.org)